

PENNOD 14: TYFU

Diarhebion 22,6

Hyffordda blentyn ar ddechrau ei daith, ac ni thry oddi wrthi pan heneiddia.

Ceir un stori yn efengyl Luc sy'n sefyll ar ei phen ei hun ar yr olwg gyntaf, tra bod yr hanesyn hwn yn cysylltu hanesion geni Iesu â'i weinidogaeth wedi iddo dyfu. Peth rhesymol felly yw ei ychwanegu at hanesion y Geni. Hwn yw'r unig hanes sy'n ymwneud â thri deg o flynyddoedd cyntaf bywyd Iesu ar ôl ei eni, sef stori ymweliad y teulu â Jerwsalem pan oedd yn ddeuddeg oed. Byddai darllenydd Iddewig yn gyfarwydd iawn â phwrpas yr ymweliad â'r ddinas a'r Deml ond, wrth gwrs, ni ysgrifenna Luc ar gyfer Iddewon ond i genedl-ddynion, yn gyntaf oll yn Asia Leiaf. Byddai rhai'n anghyfarwydd â defodau'r Iddewon, yn arbennig genhedlaeth gafodd ei geni amser ar ôl y digwyddiadau hyn. Awgryma hyn fod Luc yn defnyddio lleoliad Rhufain imperialaidd gyda'r cwlt o'r ymheroddr ac hefyd gonfensiynau ysgrifennu bywgraffiadol Groegaidd-Rufeinig i gyflwyno un sy'n fwy na Chesar. Gwna Luc hynny trwy gyflwyno hanes bachgen Iddewig wedi ei fagu mewn teulu duwiol Iddewig.

Y mae gan yr Hen Destament ddysgeidiaethau penodol ar fater magwraeth plant a dengys Luc i Joseff a Mair fod Joseff a Mair wedi dilyn y rhain yn ffyddlon iawn. Yr hyn sy'n eglur yw mai ychydig o ddi-ddordeb oedd gan yr Eglwys Fore ym mywyd cynnar Iesu, er iddo ddweud llawer am blant. Pan geisiodd y disgyblion atal pobl rhag dod â'u plant ato, ymateb Iesu oedd: "Gadewch i'r plant ddod ataf fi, a pheidiwch â'u rhwystro; oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas Dduw yn perthyn. Yn wir, rwy'n dweud wrthy, pwy bynnag nad yw'n derbyn teyrnas Dduw yn null plentyn, nid â byth i mewn iddi."¹⁰⁶ Y mae gan yr Efengylau nifer o hanesion am ymwneud Iesu â phlant. Awgryma'r rhain i gyd blentynod hapus Iesu yn Nasareth yng ngofal Mair a Joseff. Gwahanol iawn yw disgrifiad Luc o'r bachgen Iesu i ddisgrifiadau rhwysgfawr bywgraffiadau hynafol o ragaeddfedrydd ieuanc. Cafodd y fath ysgrifennu ei gopïo gan ysgrifau a chelfyddyd Gristnogol apocryffaidd. Enghraifft o gelfyddyd yw darlun Holman Hunt o Iesu ar ei draed yn dysgu'r athrawon yn y Deml – mor wahanol i ddisgrifiad Luc, sy'n dweud: "daethant o hyd iddo yn y deml, yn eistedd ymhlith yr athrawon, yn gwranddo arnynt ac yn eu holi...". Defnyddia ymadrodd Hebraeg cyffredin am ddisgybl yn dysgu oddi wrth ei athro.

Gorchymyn y Ddeddf oedd y dylai pob Iddew ymweld â Jerwsalem deirgwaith pob blwyddyn, ar gyfer gwyliau'r Pasg, Pentecost a Phebyll (Tabernaclau). "Teirgwaith y flwyddyn y mae dy holl wrywod i ymddangos gerbron yr Arglwydd dy Dduw yn y man y bydd ef yn ei ddewis, sef ar wyl y Bara Croyw, ar wyl yr Wythnosau ac ar wyl y Pebyll."¹⁰⁷ Erbyn cyfnod Iesu, newidiwyd y rheol i un ymweliad y flwyddyn â'r Deml. Y gwŷr yn unig gafodd y gorchymyn i fynd ar y bererindod flynyddol hon ond datblygodd traddodiad y dylai bechgyn fynd hefyd. Yn y diwedd datblygodd i fod yn gymysg o bererindod a gwyliau i deuluoedd cyfan.

Roedd yr arfer yn henach na chyfnod y Testament Newydd canys aeth Hannah gyda'i gŵr: "Dyma a ddigwyddodd bob blwyddyn pan âi i fyny i dŷ yr Arglwydd: byddai'n ei phoenydio, a hithau'n wylo a pheidio bwyta..."¹⁰⁸ Darlunia Luc deuluoedd cyfan yn mynd o Nasareth, gan gerdded gyda'u cymdogion; grŵp o'r synagog lleol, efallai – mor debyg i driplau a phererindodau eglwysi heddiw. Byddai'r daith o wyth deg milltir yn cymryd tridiau. Y ffordd fwyaf tebygol fyddai o Nasareth ar hyd dyffryn yr Iorddonen i Jericho, gan ddringo wedyn i fyny i Jerwsalem, heibio i westy "y Samariad trugarog." Roedd y ffordd rwyddaf, ar lan môr y Canoldir, yn amhosibl i Iddewon duwiol am i'r Ffordd Maritima gael ei chodi gan y Rhufeiniaid, gan fynd trwy drefi Goeg-Rufeinig. Roedd y llall trwy fryniau Jwdea yn amhosibl hefyd gan iddi groesi tiroedd y Samariaid.

Gan fod Iesu wedi cyrraedd oedran dyn yn ôl y Ddeddf a chael ei gyfrif fel dyn wrth sicrhau y nifer gofynnol ar gyfer synagog, mae'n bur debyg mai hwn oedd achlysur ei *Bar Mitzva*. Golyga gymryd rhan yn yr wyl aros yn y ddinas am bum niwrnod cyn troi adref (un deg un diwrnod gan gyfrif y teithio hefyd). Yr arfer oedd bod pob grŵp yn cerdded mewn tair rhan: gwrywod, menywod a merched, a bechgyn. Y tebygrwydd yw bod y 'gwrywod newydd, deuddeng mlwydd oed, am fod gyda'i gilydd. Byddai neb yn gofidio amdano, gan feddwl iddo fod naill ai gyda'i ffrindiau neu gyda'i dad.

Cerdda'r orymdaith am ddiwrnod cyn aros am y nos, pan fyddai teuluoedd yn dod at ei gilydd er mwyn gwrsylla trwy'r oriau tywyll. Y pryd hynny gwnaeth Joseff a Mair ddarganfod bod eu mab ar goll. Amhosibl gwneud dim tan y bore ond gofidio. Byddai'r pâr wedi dychwelyd i Jerwsalem gan gyrraedd yno ar yr ail noson a rhaid aros tan y bore wedyn. Ar ôl iddynt dreulio oriau yn chwilio amdano, dyma'r rhieni yn troi i mewn i'r Deml, a chael y bachgen yno, er eu mawr ryddhad a'u rhyfeddod.

Ni chawn wybod ble arhosodd Iesu yn ystod y ddwy noson flaenorol ond awgrymir iddo fod yma, yn y Deml. Mae Iesu wedi cyrraedd oedran lle mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau chwilio am eu hunaniaeth. Byddai'r ymdrech yn fwy i'r bachgen hwn. Nodwyd eisoes y gymhariaeth rhwng Hannah a Mair; ceir un yma hefyd. Hwyrach, fel Samuel,

Y Noson Honno: Myfyrdodau trwy'r adfent gan Thomas Ivor Rees

y treuliodd Iesu'r ddwy noson yn y Deml mewn cymundeb â Duw. Ar hyd ei flynyddoedd yn Nasareth fe dyfodd ei amgyffred o bwrpas Duw ar ei gyfer. Fe â trwy'r broses o amgyffred nad mab i Joseff a Mair yn unig yw, na hyd yn oed ond mab Abraham. Mae'n dechrau paratoi ei hun, heb iddo sylweddoli hynny, ar gyfer ei dair blynedd o gyhoeddi'r Deyrnas a'i chwe awr ar y Groes.

Bu dan dylanwad cartref, ysgol a synagog gan ddysgu o'r hyn a dderbyniodd yno ac o fywyd cyffredin ei gymdogion yn y gymuned, a bydd yn parhau i wneud hynny. Ond, ar y bore hwn, mae yn ôl yn y Deml mewn math ar seminar o holi ac ateb gyda phrif athrawon ei grefydd. Arbenigwyr yw'r rhain ym meysydd y Gyfraith, y Proffwydi a Dyfodiad y Meseia, yn medru esbonio eu gobaiith am ddyfodiad Mab Dafydd, hebryngydd y Cyfamod Newydd.¹⁰⁹ Efallai y byddai ef neu un o'r athrawon wedi cyfeirio at Was Dioddefus y Proffwyd Eseaia ond mae hyn yn llai tebygol.¹¹⁰

Dywed Luc, "yr oedd pawb a'i clywodd yn rhyfeddu mor ddeallus oedd ei atebion." Mae'n amlwg fod cynulleidfa yno ac, efallai, rhai eraill oedd wedi dod â'u cwestiynau ond erbyn hyn, y bachgen o Nasareth sy'n cael sylw pawb. Defnyddia Luc un o'i hoff eiriau i ddisgrifio'r gynulleidfa a'r athrawon sef "rhyfeddu." Y gair Groeg *existanai* sydd yma, sydd i'w gael un ar ddeg o weithiau yn ysgrifau Luc. Gair arall sydd ganddo yn ei ddarlun o Iesu yw *thaumizein*, sydd i'w gael yn ei ddisgrifiad o ymateb y bobl i newyddion y bugeiliaid: "rhyfeddodd pawb a'u clywodd..." Gair tebyg arall sydd gan Luc yw *ekplessein*, a ddefnyddir ganddo i ddarlunio ymateb Mair a Joseff: *ekplessein*, sy'n digwydd bedair gwaith yn Efengyl Luc. Mae rhyfeddod a syfrdandod yn atseinio trwy ei Efengyl.

Mair sy'n siarad gyntaf, gan droi at ei mab gyda chymysgedd o ryddhad a cherydd. "Fy mhlentyn, pam y gwnaethost hyn i ni?" – geiriau mamau ymhob cenedl a chenchedlaeth i'w plant – "Dyma dy dad a minnau yn llawn pryder wedi bod yn chwilio amdanat." Gellir cymryd yn ganiataol na wnaeth ddim tebyg i hyn o'r blaen. Wrth i'w mab ei hateb, nid oes ganddo ymddiheuriad ond rhyfeddod sydd yn awr yn ei lais ef: "Pam y buoch yn chwilio amdanaf? Onid oeddech yn gwybod mai yn nhŷ fy Nhad y mae'n rhaid i mi fod?"

Mae Luc yn chwarae'n graff gyda geiriau: "dy dad" o eiddo Mair a "fy Nhad" yn ateb Iesu. Rhaid i'w rhieni ddeall ei eiriau a'i safle. Er i'w hymdrech i'w ddeall fod yn aflwyddiannus, parhânt i'w dderbyn fel eu mab ac arllwys cariad rhieni arno. Nid hwy fydd yr olaf i fethu fel hyn: wedi iddo adrodd Dameg yr Heuwr i'r dorf, dywedodd wrth ei ddisgyblion: "I chwi y mae gwybod cyfrinachau teyrnas Dduw wedi ei roi, ond i bawb arall maent ar ddamhegion, fel 'er edrych, na welant, ac er clywed, ni ddeallant."¹¹¹ Yn fuan wedi hynny, "Nid oeddent hwy yn deall dim o hyn; yr oedd y peth hwn wedi ei guddio rhagdynt, a'i eiriau tu hwnt i'w hamgyffred."¹¹² Daeth dealltwriaeth i'w ddisgyblion yn unig wedi iddo ddod atynt ar ôl ei atgyfodiad a chyn iddo ymadael â hwy am y tro olaf. "Yna yr agorodd eu meddyliau iddynt ddeall yr Ysgrhythurau."¹¹³

Dywed y mab wrth ei fam, "Rhaid i mi fod..." Daw'r gair 'rhaid' ar ei wefusau nifer o weithiau cysylltiedig â'i fywyd a'i farw nes ymlaen yn Efengyl Luc.¹¹⁴ Ni cheir enw yn y frawddeg hon; yr hyn sydd yn y testun Groeg yw "Onid ydych chi yn gwybod mai yn y mae'n rhaid i mi fod?" Mae'n bosibl cyfieithu hyn naill fel "yn nhŷ fy Nhad" neu "ynghylch y pethau a berthyn i'm Tad," fel sydd gan yr Esgob Morgan a Beibl y Brenin Iago tra bod Beiblau cyfoes yn y Gymraeg a'r Saesneg yn dweud "yn nhŷ fy Nhad."

Gan fod Iesu'n siarad yn y Deml, mae'n rhesymegol credu mai am y tŷ mae'n sôn. Ble buont yn chwilio amdano? Mae'n glir iddynt chwilio amdano ym mhob teulu a grŵp ar y daith adref ac o gwmpas y ddinas - ymhob man arall cyn dod i'r Deml. Mae'r bachgen yn ddiogel yn nhŷ ei Dad. Ble arall all ef fod? Yn ystod ei wythnos olaf ar y ddaear, mae'n sefyll unwaith eto yn y Deml i ddweud rhywbeth hollol wahanol am y lle. Defnyddia eiriau'r proffwydi, "Y mae'n ysgrifenedig: 'Gelwir fy nhŷ i yn dŷ gweddi,' ond yr ydych chi wedi ei wneud yn ogof lladron."¹¹⁵ Y mae'r Testament Newydd yn sôn am ymagwedd Iesu at Dduw, ato'i hunan, at bobl a'r byd o'i gwmpas trwy'r hyn a ddywedodd a'r hyn a wnaeth. Mae'n dweud wrthym hefyd sut y medra gael y fath ymagwedd tuag at bawb a phopeth, sut y llwyddodd i ddweud a gwneud a derbyn popeth a ddigwyddodd iddo. Ateb y Testament Newydd yw: trwy addoli yn y synagog, trwy astudio'r Ysgrhythurau a gweddi bersonol, trwy fynd ar wahân a thrwy gymdeithas â'i ddisgyblion a phobl eraill, a thrwy'r pethau a ddysgodd pan oedd yn ifanc. Cafodd ymborth ac arweiniad fel Iddew da a bod dynol da, ac fel Gwas yr Arglwydd a Mab Duw. Defnyddia'r efengylau ymadroddion megis "gyrrodd yr Ysbryd ef".¹¹⁶ Yr hyn a bwysleisir yw mai trwy ei berthynas agos â'r Tad Nefol y cafodd ei berthynas â chreadigaeth ei Dad a phlant ei Dad ei feithrin a'i nerthu.

Ond, yn gyntaf rhaid iddo fyw fel ei gymdogion gan fynd trwy ei brentisiaeth ac wedyn weithio fel saer am ryw ddwy flynedd a'r bymtheg. Oriol Gelfyddyd yw cartref darlun trawiadol Holman Hunt, *The Shadow of the Cross*. Darlunia Iesu y saer ifanc yn unioni ei gorff ar ôl oriau yn plygu dros ei fainc. Wrth iddo ymestyn ei freichiau wrth ddrws agored, fe welir cysgod croes ar y wal y tu ôl iddo. Ar gyfer hyn y cafodd ei eni – wedi ei ddanfôn gan Dduw i wneud ewyllys y Tad ac i gyflawni gwaith maddeuol, gwardedigol Duw, yn rhyddhau, cymodi a charu holl blant y Tad. Math ar brentisiaeth fydd y blynyddoedd hynny yn Nasareth wrth iddo fyw ymhlith pobl gyffredin a dod i'w hadnabod. Rhaid iddo weithio gyda'i dad daearol, "Joseff a'i Fab, Seiri", fel paratoad ar gyfer ei alwedigaeth fel Mab Duw.

Bachgen deuddeg oed sy'n ymadael â Nasareth i fynd i Jerwsalem ond ¹¹⁷fel dyn y daw yn ôl i gyflawni holl ofynion y Ddeddf. Serch hynny, mae'n parhau i fod yn ufudd i'w rieni dynol. Mae'n hyfforddiant da i un fydd yn ymadael â'i gartref i "wneud ewyllys yr hwn a'm hanfonodd, a gorffen y gwaith a roddodd i mi."¹¹⁸ Unwaith eto cawn Luc yn dweud wrthym, "Cadwodd ei fam y cyfan yn ddiogel yn ei chalon." Daw'r hanesyn i ben gyda geiriau Luc: "Ac yr

Y Noson Honno: Myfyrdodau trwy'r adfent gan Thomas Ivor Rees

oedd Iesu yn cynyddu mewn doethineb a maintioli, a ffafr gyda Duw a'r holl bobl." Arweiniwyd ni yn ôl at Hannah sawl gwaith gan Luc, er mwyn ei chymharu â Mair. Yn awr mae'r gymhariaeth rhwng y ddau fab, Iesu a Samuel. Dywedir am Samuel: "Ac yr oedd y bachgen Samuel yn dal i gynyddu ac i ennill ffafr gyda Duw a'r bobl."¹¹⁹ Rhaid bod Luc yn tynnu'r gymhariaeth yn fwriadol. Mae'r ymadroddion tebyg yn ddisgrifiad da o'r naill a'r llall; mae'n wir am lawer o bobl sydd wedi cysegru eu bywyd i wasanaeth Duw. Rhaid dweud, serch hynny, fod y bachgen yn hanes Luc yn sefyll ar wahân i bawb arall yn natur ei ymgysgriad.

Diflanna wedyn o olwg y byd am tua tri deg o flynyddoedd. Pan ddaw i'r golwg unwaith eto, fe â at ei gefnder Ioan i dderbyn bedydd edifeirwch, nid ar ei ran ei hun, ond ar ran yr holl bobl y bydd yn marw drostynt yn enw cariad y Tad. Daw llais o'r nefoedd, "Ti yw fy Mab, yr Anwylyd: ynot ti yr wyf yn ymhyfrydu."¹²⁰ Bu ei flynyddoedd cudd o werth mawr iddo.

*Nefol Dad, cofiwn gyda diolch y ofal rhieni gafodd Iesu gan Mair a Joseff. Gweddïwn yn awr dros holl deuluoedd y byd drylliedig hwn,
am iddynt fod yn lleoedd o gariad a gofal.
Boed i'r Eglwys ymhob man heddiw fod yn wir deulu Iesu,
yn gymuned o gariad wedi ei ymgymodi a chymodol,
yn meithrin dy rai bychain di mewn ffydd, gobaith a chariad,
er gogoniant i'th enw.*

Cwestiynau i feddwl drostynt neu i'w trafod

Bu Iesu ar goll yn Jerwsalem, neu felly yr ymddangosodd. Ydych chi wedi teimlo erioed iddo fod ar goll i chi? Os felly, sut daethoch at eich gilydd unwaith eto?

Beth oedd ystyr dod i oed i Iesu? Beth yw ystyr dod i oed i chwi?

Beth yw Cristion aeddfed?